THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

Anerchiad Llywydd

Syr Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW

17 Mai 2017

Prynhawn da Gymrodyr, Gyfeillion / Good afternoon Fellows, Friends

Croeso i Gyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Croeso cynnes iawn unwaith eto i seithfed Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Llongyfarchiadau'n arbennig i'r 42 o Gymrodyr sydd newydd eu hethol.

Llongyfarchiadau i'r rhai a etholwyd sy'n dod â'r gymrodoriaeth nodedig i 464.

Mae hyn yn cynrychioli corff sylweddol o ysgolheictod y gall y genedl ymfalchïo ynddo. Mae eich Cymdeithas yn parhau i wneud cynnydd gan gynyddu'r nifer o Gymrodyr benywaidd. Roedd 35% o'r Cymrodyr newydd a etholwyd yn 2016/17 yn fenywod. Rydym ni hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli fwy yn llywodraethiant, cenhadaeth a gweithgareddau'r Gymdeithas. Rydym ni'n raddol yn gweld canlyniadau adolygiad yr Athro Fonesig Terry Rees yn 2014. Erbyn hyn mae 18% o Gymrodyr y Gymdeithas yn fenywaidd, sy'n gynnydd o 50% ers 2013/14.

Ond mae llawer mwy i'w wneud, o fewn y Gymdeithas ac mewn prifysgolion unigol i annog a grymuso academyddion benywaidd.

Mae'n briodol fy mod yn cydnabod ac yn diolch i Swyddogion a Chyngor y Gymdeithas am eu gwaith dros y flwyddyn, a'r cyfraniad enfawr a wnaed gan ein Prif Weithredwr, yr Athro Peter Halligan a'i dîm rhagorol. Mae hyn wedi cynnwys gwell cyfathrebu gyda Chymrodyr a chyhoeddi ein gweithgareddau a'n gweithredu yn ehangach. Mae arnom ddyled i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gweithgareddau, yn enwedig i aelodau'r paneli a fu'n craffu enwebiadau ac argymell ein Cymrodyr sydd newydd eu hethol.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i dderbyn cefnogaeth ariannol pob un o'r wyth prifysgol yng Nghymru, ac mae'r Gymrodoriaeth yn ehangach ar ôl etholiad eleni. Mae hyn yn hanfodol. Fel cymdeithas genedlaethol rhaid i ni gynrychioli Cymru gyfan. Diolch i bawb sy'n ein cefnogi, yn enwedig y Cymrodyr unigol hynny sy'n rhoi yn hael. Mae gosod y Gymdeithas ar sail ariannol gynaliadwy'n hanfodol.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn cymaint o wahanol ffyrdd tuag at ein gwaith.

Ond yn realistig mae ein hadnoddau'n gyfyngedig. Serch hynny rydym ni'n cyflawni llawer ac yn hyrwyddo ein nodau o ddathlu rhagoriaeth a gwasanaethu'r genedl. Ein hadnodd gorau yw'r Gymrodoriaeth. Mae harneisio'r talentau sydd ar gael yn cynnig ffrwd gyfoethog o gyngor ysgolheigaidd arbenigol, ac eleni rydym ni wedi galw ar Gymrodyr i baratoi cyflwyniadau ar faterion cyfansoddiadol, Addysg Uwch yng Nghymru, y DU ac Ewrop, ar y Gymraeg a'r Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym ni'n awyddus i gynnwys Cymrodyr yn ein gwaith yn y dyfodol er budd i bawb er mwyn i ni allu gwneud mwy.

Yn ystod degawd cyntaf y ganrif daeth grŵp o ysgolheigion nodedig at ei gilydd i greu'r Gymdeithas Ddysgedig. Mae dau o'r Cymrodyr sylfaen hyn wedi parhau i wasanaethu fel Swyddogion ers dechrau'r Gymdeithas. Mae'r Athro Wynn Thomas wedi gwasanaethu'n arbennig fel Is-Lywydd y celfyddydau, y

dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol dros saith blynedd, ac roedd yn Gyd-gadeirydd y Cyngor Cysgodol, a fu'n cynllunio'r academi. Mae Wynn, sy'n Athro Saesneg ym Mhrifysgol Abertawe, yn ysgolhaig adnabyddus yn y ddwy lenyddiaeth a geir yn y Gymru fodern yn ogystal â barddoniaeth fodern o America. Mae wedi cyhoeddi tua dau ddwsin o gyfrolau ac wedi cyfrannu'n eang i fywyd Cymru. Mae ei ddoethineb wedi helpu i lywio'r Gymdeithas ac mae wedi arwain y gwaith ar ddatblygu cysyniad Astudiaethau Cymreig, y bydd yn parhau i'w hyrwyddo.

Mae'r Athro John Tucker wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd y Gymdeithas ers 2010. Mae'n Athro Cyfrifiadureg yn Abertawe, ac yn arbenigwr ar ddamcaniaeth cyfrifiadwyedd, hynny yw'r hyn y gellir ac na ellir ei gyfrifo gan bobl a pheiriannau. Yn y 1990au cynnar, datblygodd John syniad o Academi Wyddoniaeth i Gymru gyda'i gydweithiwr yr Athro David Evans. Ailgodwyd y syniad yn 2006, wrth i drafodaethau cynnar am academi genedlaethol amlddisgyblaethol, Cymru gyfan fynd rhagddynt. Mae brwdfrydedd John wedi helpu i lywio a datblygu'r Gymdeithas, creodd gyfres Gwyddonwyr Cymru Prifysgol Cymru gyda chefnogaeth y Gymdeithas, a bydd yn parhau i arwain gwaith i hyrwyddo hanes gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru.

Mae'r ddau wedi meithrin twf y Gymdeithas ac wedi cyfrannu'n enfawr at ei datblygiad presennol. Rwyf i'n ddiolchgar yn bersonol iddynt am eu cyngor diflino, eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

Diolch o galon i'r ddau ohonoch chi.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Ken Dyson, yr Athro Keith Robbins a'r Athro Robin Williams, aelodau o'r Cyngor cychwynnol y mae eu tymor newydd ddod i ben ar ôl saith blynedd o wasanaeth. Roeddent hefyd yn rhan o'r trafodaethau a arweiniodd at sefydlu'r Gymdeithas.

Mae'r papurau a gylchredwyd ar gyfer y cyfarfod hwn yn dangos ystod ac ansawdd y gweithgarwch sydd wedi'i gynnal a sut mae'r Gymdeithas yn ymdrechu i gyflawni ei nod o wasanaethu Cymru. Mae cydnabod ysgolheictod a theilyngdod yn ddiben sylfaenol. Caiff cymrodyr eu cynnig i'w hethol oherwydd eu cyflawniadau a'u cyfraniadau eithriadol. Cydnabyddir unigolion am eu harbenigrwydd academaidd.

Mae gan fedalau unigol, a enillir yn gystadleuol ar sail teilyngdod, hanes hir a nodedig o gydnabyddiaeth yn y byd academaidd. Rydym ni'n datblygu ein portffolio ein hunain o fedalau yn araf ac yn strategol. Eleni byddwn ni'n cyflwyno:

- y bumed Fedal Menelaus am ragoriaeth mewn unrhyw faes peirianneg a thechnoleg;
- yr ail Fedal Frances Hoggan i ymchwilwyr benywaidd rhagorol mewn STEMM;
- y tair Medal Dillwyn gyntaf am ragoriaeth ymchwil gyrfa gynnar mewn STEMM, y celfyddydau creadigol a'r dyniaethau, a gwyddor gymdeithasol a busnes, i'w dyfarnu i enillydd benywaidd;
- a'r Fedal Hugh Owen gyntaf, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, i gydnabod cyfraniadau pwysig i ymchwil addysgol neu gymhwyso ymchwil i gynhyrchu arloesi sylweddol mewn polisi addysgol a/neu ymarfer addysgol proffesiynol yng Nghymru.

Nid yn unig mae'r medalau hyn yn cydnabod rhagoriaeth academaidd, ond maen nhw hefyd yn adfer ac yn hyrwyddo gwaddol hir o lwyddiant Cymreig.

Wrth i'r Gymdeithas gydnabod unigolion, mae cydnabyddiaeth a chyfraniad Cymrodyr yn eu tro'n helpu i atgyfnerthu enw da'r Gymdeithas Ddysgedig. Y llynedd cydnabuom ddau Gymrawd Er Anrhydedd, yr oedd y ffaith iddynt dderbyn y dyfarniad ynddo'i hun yn glod i'r Gymdeithas. Traddododd Syr Michael Atiyah a'r Arglwydd Martin Rees ddarlithoedd i'r Gymdeithas yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Gymdeithas ac edrychwn ymlaen at groesawu Cymrodyr Er Anrhydedd eleni, yr Athro Mary McAleese a'r Arglwydd Stewart Sutherland, yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Croesawyd y cadarnhad sylweddol gan Adolygiad Diamond (2016) i rôl y Gymdeithas wrth iddi helpu i gynyddu a hyrwyddo rhaglen ymchwil uchelgeisiol Cymru.

Yn benodol, nododd yr Adolygiad bod "y Gymdeithas yn ychwanegiad i'w groesawu i dirwedd ddeallusol Cymru, yn enwedig oherwydd ei chymrodoriaeth amlddisgyblaethol ac amlsector" ac amlygodd fod yr angen i "fanteisio ar yr aelodau mwyaf dawnus o'u cymdeithas i roi cyngor; herio a thrafod, yn debyg i gymdeithasau dysgedig eraill fel y Royal Society of Edinburgh neu'r Royal Society of London" yn bwysig i economïau llwyddiannus yn seiliedig ar wybodaeth.

Wrth sôn am rôl y Gymdeithas Ddysgedig yn y dyfodol, aeth yr Adroddiad yn ei flaen: Credwn fod ganddi'r potensial i ddatblygu i fod yn adnodd gwirioneddol ar gyfer a) gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn â gwyddoniaeth ac ysgogi a chyfrannu at drafodaethau ac ymgysylltiad y cyhoedd mewn perthynas â materion cyfoes allweddol; b) cyfrannu at ddatblygiad 'pŵer meddal' Cymru drwy hyrwyddo rhwydweithiau rhyngwladol o ddiddordeb yn sefydliadau, diwylliant a gwerthoedd Cymru; c) ysbrydoli a chefnogi doniau ifanc mwyaf disglair Cymru yn y sectorau ymchwil, busnes a chyhoeddus, er mwyn creu gwerth ar gyfer yr economi a'r gymdeithas; ch) darparu cyngor annibynnol a sganio'r gorwel ar draws meysydd o bob math drwy sicrhau bod gan y bobl sy'n llunio a dylanwadu ar bolisi yng Nghymru fynediad i'r arbenigedd cenedlaethol ac yn wir, byd-eang, gorau; d) sicrhau cydnabyddiaeth well o ansawdd yr ysgolheictod sy'n bodoli yng Nghymru ac sy'n gysylltiedig â Chymru; ac dd) hyrwyddo buddiannau ac enw da Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Allen ni ddim fod wedi dweud hynny'n well ein hunain.

Er mwyn i'r Gymdeithas allu cyflawni ar y cylch gorchwyl hwn, argymhellodd yr Adolygiad y dylai'r Gymdeithas gael "y math o gyllid craidd a welir mewn awdurdodaethau eraill" gan argymell "y dylai'r Gymdeithas gael cyllid o £1 miliwn bob blwyddyn, drwy law CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y mae'r Gymdeithas a CCAUC wedi cytuno arnynt, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol."

Mae'r gefnogaeth hon yn cyd-fynd yn dda gydag amcanion y Gymdeithas. Byddai'r cyllid yn cael ei gyfyngu i dasgau i gyflenwi amcanion a gytunwyd gyda CCAUC sy'n helpu i hybu a datblygu rhagoriaeth mewn ymchwil ac ysgolheictod yng Nghymru. Caiff cynlluniau 'grant cymorth' tebyg eu defnyddio yn yr Alban ar gyfer yr RSE ac Iwerddon ar gyfer yr RIA. Ni fyddai cyflawni cytundebau o'r fath a rhannu cyllid yn cyfaddawdu annibyniaeth y Gymdeithas.

Yn realistig, fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd tan 2019/20 a bryd hynny dim ond ar lefelau y bydd HEFCW neu TEA yn gallu eu darparu.

Roedd y Gymdeithas Ddysgedig wedi cyfrannu at Adolygiad Diamond, oedd yn hanfodol i'n hamcan yn y Siarter Brenhinol sef "datblygu dysg a gwybodaeth a hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt". Roeddem felly'n croesawu prif argymhellion yr Adolygiad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Roedd y rhain yn debyg i'n hawgrymiadau gwreiddiol, oedd yn darparu y dylid

(i) dileu'r Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig llawn amser a'i amnewid am fenthyciad ychwanegol i fyfyrwyr, a chyflwyno grantiau cynhaliaeth gyda phrawf modd.

(ii) 'Dylai sefydliadau sy'n darparu addysg uwch gael eu cyllido ar lefel sy'n eu galluogi i wneud gwaith addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, yn unol â'u cryfderau, eu harbenigeddau a'u cenadaethau penodol.

Cadarnhaodd adborth unigol gan y Cadeirydd a nifer o aelodau o'r pwyllgor adolygu fod cyflwyniad y Gymdeithas Ddysgedig a'r rhyngweithio dilynol wedi cyfrannu'n helaeth at ffurfio'r argymhellion terfynol. submission and subsequent interactions contributed in no small way in shaping the final recommendations.

Bydd gweithredu'r ystod lawn o argymhellion Adolygiad Diamond yn hanfodol, er budd myfyrwyr y dyfodol ac annog eu mynediad at addysg uwch, a hefyd er mwyn sicrhau bod gan Gymru sector addysg uwch cynaliadwy, llwyddiannus a chystadleuol. Er hynny ceir cafeat o ran yr ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol ac ni chaiff ei weithredu am rai blynyddoedd.

Yn yr un modd bu'r Gymdeithas yn weithgar yn hyrwyddo capasiti ymchwil ychwanegol yng Nghymru. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru "Cyflawni Gwyddoniaeth i Gymru" yn nodi dan y rhesymwaith am raglen Sêr Cymru II bod The Case for Growing STEMM Research Capacity in Wales (Leadership Foundation for Higher Education, Chwefror 2015) gan yr Athro Peter Halligan a Dr Louise Bright yn tanlinellu bod angen gwneud mwy i gwblhau gweithredu'r cynllun Sêr Cymru gwreiddiol. Roedd eu hymchwil yn dangos nad oedd prifysgolion Cymru wedi sicrhau eu canran ddisgwyliedig o gyllid ymchwil a ddyfernir yn gystadleuol oherwydd diffyg o 646 o ymchwilwyr ers tro. Mae cymrodoriaethau a chynlluniau codi capasiti Sêr Cymru II sy'n dod i gyfanswm o £60 miliwn bellach yn cyfrannu at bontio'r bwlch hwn yn uniongyrchol. **Ased pwysig i Gymru yw rôl y Gymdeithas fel ffynhonnell annibynnol ac arbenigol o gyngor ysgolheigaidd.**

Rydym wedi cyflwyno barn ystyriol ac mae Swyddogion wedi ymddangos gerbron Pwyllgorau Seneddol a'r Cynulliad.

Mae'r Gymdeithas Ddysgedig yn ymrwymo i chwarae rhan lawn yn helpu pobl Cymru a'u cynrychiolwyr etholedig i sicrhau cenedl fwy ffyniannus a llwyddiannus. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Gymdeithas wedi bod yn gwneud hyn yn ddiwyd ac rydym yn credu bod y galw am ein sylwadau'n seiliedig ar dystiolaeth yn cynyddu, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn wir yn helpu i lywio a ffurfio polisi. Cynigir y cyngor heb ffafr, ac mae'n dangos gwerth gweithio gyda llywodraeth a phartneriaid eraill sydd â diben cyffredin i gyfrannu at amcanion strategol cenedlaethol. Mae gweithio gyda Llywodraeth Cymru wedi cynnwys canfod cyllid ar gyfer medalau'r Gymdeithas, cyllid ar gyfer adolygiadau a gomisiynir, cytuno i wasanaethu ar bwyllgorau ac Adolygiadau'r Llywodraeth (Cynghorau ymgynghorol Brexit a Gwyddonol, Reid) ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd gyda CSA ac uwch weision Sifil.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym ni wedi datblygu elfen ryngwladol ein gweithgareddau ymhellach, drwy geisio hyrwyddo a chynrychioli llwyddiannau Cymru i'r byd a chryfhau ein cydweithio. **Mae angen i Gymru adeiladu ei phroffil academaidd ar draws y sector a chyfoethogi ei henw da am ragoriaeth mewn ymchwil, addysg ac arloesi.** Mae angen i Gymru adeiladu ei phroffil academaidd ar draws y sector a chyfoethogi ei henw da am ragoriaeth mewn ymchwil, addysg ac arloesi.

Prin yw'r materion pwysicach o ran y gystadleuaeth am fyfyrwyr da, cyllid ymchwil a staff ymchwil mewn cyfnod o her economaidd a gwleidyddol llym. Gyda hyn mewn cof mae'r Gymdeithas wedi dechrau nifer o fentrau i dyfu proffil academaidd cenedlaethol a rhyngwladol Cymru drwy arddangos rhagoriaeth ymchwil ac addysg yn well. Rydym ni'n gwneud hyn ar ran y sector cyfan, ac nid sefydliadau unigol.

Yn ogystal â threfnu symposia a darlithoedd achlysurol, mae cyflenwi'r strategaeth hon wedi cynnwys hybu amgylchedd ymchwil Cymru yn y cyfnodolyn *Science*, sy'n cyrraedd cynulleidfa ryngwladol o dros hanner miliwn o ddarllenwyr bob wythnos. Mae'r Gymdeithas (a'ch Llywydd) wedi bod yn weithredol iawn yn dilyn Brexit, gan amlygu amrywiol ganlyniadau Brexit ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil a chynnig ymatebion priodol gyda chwaer academïau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gymdeithas wedi parhau i gryfhau ei pherthynas gyda chwaer academïau cenedlaethol yn y DU ac Ewrop, i wella adnabyddiaeth o Gymru a'i hysgolheictod, a hefyd i gryfhau ein cynrychiolaeth amrywiol ar lefel y DU.

Mae hyn wedi cynnwys prosiectau ar y cyd gyda'r Gymdeithas Frenhinol a'r Academi Brydeinig a chyd-gyflwyniadau gyda Chymdeithas Frenhinol Caeredin a phresenoldeb yng nghyd-gyfarfodydd cyntaf erioed y 7 Academi yn y DU. Mae hyn yn lluosi effaith ein hymdrechion ac yn sicrhau bod llais Cymreig yn cael ei glywed. Mae enghreifftiau o'r cydweithio agosach hwn i'w gweld ar ein gwefan.

Mae'r Gymdeithas wedi comisiynu Coleg King's i ymgymryd ag adolygiad annibynnol o effeithiau ymchwil academaidd o brifysgolion Cymru a chaiff hwn ei gyhoeddi'n ddiweddarach yr haf hwn. Am y tro cyntaf mae'r dadansoddiad yn cwmpasu'r holl astudiaethau achos a gyflwynwyd o un wlad yn y DU**,** gan gynnig golwg fanwl ar effaith o brifysgolion Cymru. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU yn 2014 oedd yr asesiad cenedlaethol cyntaf o ymchwil academaidd oedd yn gwerthuso effaith anacademaidd yn ffurfiol.

Ar draws yr holl gyflwyniadau, sicrhaodd Cymru 49% teilwng ar lefel 4* (rhagorol) yn yr is-broffil effaith, sy'n uwch na chyfartaledd y DU, sef 44%. Cafodd 37% arall o'r effaith a gyflwynwyd i Gymru sgôr 3* (effaith sylweddol iawn). **Mae'r adolygiad yn cadarnhau mantais uniongyrchol ymchwil academaidd i Gymru, i ddiwylliant a threftadaeth y wlad, ei heconomi, i addysg gyhoeddus a chydlyniad cymdeithasol.** Mae'r adolygiad yn cadarnhau mantais uniongyrchol ymchwil academaidd i Gymru, i ddiwylliant a threftadaeth y wlad, ei heconomi, i addysg gyhoeddus a chydlyniad cymdeithasol.

Roedd cyrhaeddiad daearyddol gweithgareddau ymchwil o Gymru'n cynnwys 102 o wledydd a chwe chyfandir. Gwyddoniaeth, peirianneg, gweithgynhyrchu a diwydiant oedd â'r gweithgaredd mwyaf y tu allan i Gymru, gyda 42% o'r holl gyfeiriadau at effaith ar y sector yn y DU, a 45% yn rhyngwladol.

Mae cyrhaeddiad byd-eang i ymchwil yng Nghymru. Cadarnhaodd adroddiad diweddaraf Bibliometrig Elsevier (Rhif 2016), a gomisiynwyd gan CCAUC fod yn agos i hanner o bapurau ymchwil Cymru wedi'u cyd-awduro gydag ymchwilydd o'r tu allan i'r DU. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod sail ymchwil Cymru'n parhau'n gynhyrchiol ac effeithlon iawn, gan ragori ar lawer o wledydd cymharol o'r un maint. Yn benodol, nododd yr adroddiad y canlynol:

- yn 2014, cyfeiriwyd at gyhoeddiadau o Gymru 68% yn amlach na chyfartaledd y byd – cynnydd o 9 pwynt canran ers 2011.
- Cynyddodd cyfartaledd y cyfeiriadau fesul ymchwilydd yng Nghymru i 9.6 yn 2010-14 – dau bwynt canran uwchlaw cyfartaledd y DU.
- Roedd 1 ym mhob 10 o bapurau ymchwil o Gymru yn y 5% cyhoeddiad y cyfeiriwyd atynt fwyaf yn fyd-eang.

Mae addysg uwch Cymru'n parhau i fod yn hynod o effeithlon. Yn wir, mae Cymru'n derbyn mwy o gyfeiriadau am bob doler o fuddsoddiad ymchwil nag unrhyw wlad gymharol arall.

Fodd bynnag mae Addysg Uwch drwy'r Deyrnas Unedig gyfan yn wynebu heriau na welwyd eu tebyg. Mae prifysgolion yn gynyddol ddibynnol ar incwm ffioedd myfyrwyr mewn sector hynod o gystadleuol. Eto i gyd mae demograffeg a galw gan fyfyrwyr ar i lawr. Mae mwy o fyfyrwyr yn dewis astudio'n lleol er mwyn iddynt allu byw gartref, ac mae'r ddyled arfaethedig yn frawychus. Yn ogystal rydym ni'n wynebu effaith Strategaeth Ddiwydiannol y DU, deddfwriaeth y DU ar Addysg Uwch ac Ymchwil ac, yng Nghymru, Adolygiad Hazelkorn. Mae'r rhain oll yn feysydd o weithgaredd i'ch Cymdeithas.

Ond yr her fwyaf a mwyaf uniongyrchol i Gymru yw Brexit. Mae hyn yn wir yn academaidd ac yn fwy cyffredinol o ystyried cyswllt hanesyddol yr UE â Chymru. Ceir gwahaniaeth trawiadol yn ffocws polisi Strategaeth Ddiwydiannol y DU fis Ionawr diwethaf (sydd prin yn crybwyll Brexit) a phapur gwyn Llywodraeth Cymru hefyd ym mis Ionawr sy'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cyllid y DU i ddigolledu Cymru am golli gwariant yr UE.

Yn fwy penodol, mae enw da sector Addysg Uwch y DU, sy'n gryfder allweddol i Gymru, a'i sail ymchwil ryngwladol dan fygythiad oherwydd adladd canlyniad refferendwm yr UE. Mae'r bygythiad posibl i gyllid ymchwil a datblygu cystadleuol yn golygu y gallai'r DU fod yn fan llai cyfeillgar/deniadol i ysgolheigion a myfyrwyr tramor, gan olygu bod ein Sefydliadau'n llai deniadol ar gyfer cydweithio rhyngwladol.

Byddai unrhyw gyfyngiadau ar symud rhydd i weithwyr yn cael effaith ddifrifol ar allu Cymru i ddenu talent academaidd, cynhyrchu ymchwil a meithrin cydweithio rhyngwladol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i warantu cyllid Horizon 2020 gydag arian newydd i'w groesawu ac yn arwyddocaol. Ond o edrych ymhellach i'r dyfodol rwyf i'n ei ystyried yn hanfodol am gymaint o resymau y dylai ymglymiad parhaus y DU, ac yn blwyfol yng Nghymru yn enwedig, mewn rhaglenni a chydweithio ymchwil yn yr UE fod yn flaenoriaeth yn nhrafodaethau Brexit. Mae hefyd yn hanfodol, beth bynnag yw'r trefniadau yn y pen draw, fod y lefel gyfredol o wariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru yn cael ei chynnal o leiaf.

Cyn yr etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin 2017, byddai'r Gymdeithas Ddysgedig yn annog yr holl bleidiau gwleidyddol i gefnogi addysg uwch drwy gefnogi polisïau sy'n hwyluso ac yn cyfoethogi ei buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, ac yn hanfodol yn cadw ei chystadleurwydd byd-eang ar ôl Brexit. Yn benodol byddem yn croesawu polisïau sy'n:

- Sicrhau setliad effeithiol i brifysgolion ar ôl Brexit
- Cefnogi addysg uwch yn ei rôl fel angor ar gyfer twf mewn economïau lleol
- Cynyddu cyllid ar gyfer gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi i gydweddu â'n cystadleuwyr
- Cefnogi addysgu o'r radd flaenaf, profiad y myfyriwr a gwella canlyniadau
- Cynnig system fewnfudo effeithiol sy'n annog symud rhydd i academyddion a myfyrwyr

  Ni fynegodd y Gymdeithas farn yn ystod y refferendwm, ond bellach mae'n ymrwymo i ddiogelu AU yng Nghymru a chyfrannu at y drafodaeth ynghylch y ffordd ymlaen. Mae'r peryglon i brifysgolion yn amlwg. Mae symud rhydd i staff a myfyrwyr yn cyfoethogi. Mae cydweithio ar draws Ewrop yn gwella ymchwil.

Mae Llywodraeth Prydain wedi rhoi sicrwydd bod Horizon 2020 yn ddiogel. Mae'n anodd gen i ddychmygu na fydd academyddion o aelod-wladwriaethau eraill sy'n gweithio mewn prifysgolion ym Mhrydain yn cael aros. Ond mae ansicrwydd yn niweidiol ac yn tanseilio natur prifysgol.

Does dim amheuaeth. Bydd effaith Brexit ar Gymru'n sylweddol, ac o leiaf ar y dechrau mae'n annhebygol o fod yn gadarnhaol. Ymhellach, nid yw cymhlethdod y broses ysgaru a'r trafodaethau am berthynas gyda'r UE yn y dyfodol yn cael ei werthfawrogi. Na pha mor hir y bydd yn ei gymryd.

Does dim byd yn dangos hyn yn gliriach na'r Bil Diddymu Mawr, sydd wedi'i gamenwi. Ei brif ddiben yw trosglwyddo miloedd o Reoliadau'r UE i gyfraith y DU cyn ymadael. Ond mae'r mwyafrif o'r meysydd pwnc wedi'u datganoli. Mae ymdrin â hyn yn wleidyddol sensitif a gallai fod yn gyfansoddiadol ffrwydrol.

Mae Llywodraeth EM wedi awgrymu bod dychwelyd pwerau o'r UE yn cynnig cyfle i ddatganoli mwy o bwerau. Mae hefyd wedi dadlau y bydd Brexit yn gyfle i bennu'r lefel orau i wneud cyfreithiau/polisïau newydd. Yn bersonol dwyf i ddim yn credu bod pwerau'n cael eu dychwelyd. Maen nhw'n gorwedd ymhle mae San Steffan eisoes wedi penderfynu. Yn achos e.e. amaethyddiaeth, mae'r grym yng Nghymru o ganlyniad i sawl Deddf Llywodraeth Cymru yn gorwedd yng Nghaerdydd. Ar ôl Brexit, y gwahaniaeth mawr yw na fydd Cynulliad Cymru'n cael ei gyfyngu i ddilyn polisïau a gytunwyd ym Mrwsel neu weithredu cyfreithiau'r UE. Dim ond drwy ddeddfwriaeth San Steffan y gellir newid neu dynnu'n ôl y pwerau hynny sydd wedi'u trosglwyddo i Gaerdydd.

Dylai'r sensitifrwydd fod yn amlwg. Gallai fod angen deddf ar draws y DU gyfan ar e.e. iechyd anifeiliaid. **Ond gallai'r modd mae Llundain yn mynd ati i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, ac a ydyn nhw'n dod i gytundeb, sbarduno argyfwng cyfansoddiadol mawr. Hyd yma ychydig o ddealltwriaeth mae Llywodraeth Ei Mawrhydi'n ei ddangos o'r sensitifrwydd dan sylw.**

Yn aml caiff addysg uwch (gan gynnwys academïau cenedlaethol) ei gwerthuso yn ôl set gyfyngedig o ddangosyddion. Mae gwerthusiadau cul o'r fath yn aml yn anwybyddu neu'n tanbrisio'r rôl ehangach mae addysg yn ei chwarae yn adeiladu cymdeithas gryfach a mwy goddefgar, sail sgiliau perthnasol, economi lewyrchus, gwell gofal iechyd a diwylliant ffyniannus. Yn benodol fe wyddom fod y profiad yn aml yn newid bywyd yr unigolyn. Bydd y Gymdeithas Ddysgedig yn gweithio i gynnal a chyfoethogi'r rhagoriaeth hwn a'r min cystadleuol yn wyneb yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu ar hyn o bryd drwy:

- Hybu cwmpas eang proffil ymchwil, diwylliannol ac arloesol cyfoethog Cymru
- Cyfleu effaith ac amrywiaeth deallusol Cymru
- Arddangos rhagoriaeth a thalent yng Nghymru sy'n cyfrannu at gymdeithas a'r economi
- Ysbrydoli ieuenctid drwy ddangos beth y gall talent a theilyngdod ei gyflawni a thrwy esiampl helpu i greu gwlad fwy hunanhyderus, sicr, gwydn a llwyddiannus.